Y PWYLLGOR SAFONAU

ADRODDIAD BLYNYDDOL 2023-2024

Rhagair

1. Y Cyfnod a Gwmpesir gan yr Adroddiad
2. Cylch Gwaith
3. Aelodaeth y Pwyllgor
4. Atgyfeiriadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
5. Hysbysiadau a gyhoeddwyd gan Banel Dyfarnu Cymru
6. Achosion wedi'u Cau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
7. Ceisiadau am Ollyngiad
8. Hyfforddiant Côd Ymddygiad
9. Y Polisi Datgelu Camarfer
10. Cydymffurfio â'r Côd gan Gynghorau Tref a Chymuned
11. Dyletswyddau Arweinwyr y Grwpiau
12. Gweithgareddau Eraill
13. Casgliad

Rhagair gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau

Mae'n bleser gennyf gyflwyno i'r Cyngor Llawn adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau, sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024.

Fel Cynghorwyr, byddwch yn gwybod bod y gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i bob Cyngor Sir a Bwrdeistref Sirol yng Nghymru sefydlu a chynnal Pwyllgor Safonau. Mae pwyllgorau o'r fath yn gyfrifol am oruchwylio safonau ymddygiad ar gyfer aelodau etholedig y prif gyngor a'r cynghorau cymuned a thref cyfansoddol yn ardal y prif gyngor.

Wrth gyflawni'r rôl hon, mae'r Pwyllgor yn derbyn ac yn penderfynu ar geisiadau am ollyngiad gan aelodau etholedig mewn perthynas â'r Côd Ymddygiad ac yn dyfarnu ar gwynion côd a gyfeiriwyd at y Cyngor gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Yn ogystal, mae'r Pwyllgor yn derbyn adroddiadau mewn perthynas â gweithredu polisi'r Cyngor ynghylch datgelu camarfer.

Dyma'r ail adroddiad blynyddol a gyflwynwyd gan y Pwyllgor Safonau yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a roddodd ddyletswyddau newydd i arweinwyr grwpiau gwleidyddol i hyrwyddo cydymffurfiaeth â'r côd gan aelodau eu grŵp. Roedd y Ddeddf hon hefyd yn gosod gofyniad ar Bwyllgorau Safonau i adrodd ar ba mor dda y mae arweinwyr grwpiau wedi cydymffurfio â'r dyletswyddau hynny a gellir dod o hyd i'n canfyddiadau yn hyn o beth yn adran 9 yr adroddiad hwn.

Mary Dodd
Cadeirydd Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Caerfyrddin

1. Y CYFNOD A GWMPESIR GAN YR ADRODDIAD

Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â gweithgareddau'r Pwyllgor Safonau yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024.

Yn ystod y cyfnod hwn, gwnaeth y pwyllgor gyfarfod cyfanswm o 6 gwaith.

2. CYLCH GWAITH

Rôl a swyddogaethau'r pwyllgor fel y nodir yng nghyfansoddiad y Cyngor yw:

- Hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig.
- Cynorthwyo cynghorwyr ac aelodau cyfetholedig i gadw at Gôd Ymddygiad yr Aelodau.
- Cynghori'r Cyngor ar fabwysiadu neu adolygu Côd Ymddygiad yr Aelodau
- Monitro'r modd y gweithredir Côd Ymddygiad yr Aelodau

- Cynghori, neu drefnu hyfforddiant ar gyfer cynghorwyr ac aelodau cyfetholedig ar faterion yn ymwneud â Chôd Ymddygiad yr Aelodau
- Rhoi gollyngiadau i gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig lle mae ganddynt fuddiant personol a rhagfarnol o dan Gôd Ymddygiad yr Aelodau
- Delio ag adroddiadau gan Banel Dyfarnu Cymru ac adroddiadau gan y Swyddog Monitro neu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- Ymarfer y swyddogaethau uchod mewn perthynas â Chynghorau Tref a Chymuned yn y sir
- Derbyn adroddiadau blynyddol ar weithrediad Polisi Datgelu Camarfer y Cyngor

3. **AELODAETH Y PWYLLGOR**

Mae'r Panel yn cynnwys 9 aelod, 3 Chynghorydd Sir, 1 Cynghorydd Cymuned a 5 aelod cyfetholedig.

Roedd un newid i aelodau cyfetholedig y pwyllgor yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad hwn wrth i gyn Is-gadeirydd y Pwyllgor, Mrs Julie James, adael y pwyllgor ym mis Chwefror 2024. Hoffwn ddiolch i Mrs James am ei holl waith caled dros y blynyddoedd.

Yr aelodau cyfetholedig oedd.

Mrs Mary Dodd (Cadeirydd)
Mrs. Julie James (Is-gadeirydd) (tan fis Chwefror 2024)
Mrs. Daphne Evans (Is-gadeirydd ers mis Mawrth 2024)
Mrs. Caryl Davies
Mr. Frank Phillips

Mae ymarfer recriwtio cyhoeddus ar y gweill i lenwi'r swydd wag a grëwyd drwy ymadawiad Mrs James.

Aelod Cyngor Cymuned y pwyllgor yw'r Cynghorydd Philip Rogers (Cyngor Tref Sanclêr).

Roedd newid hefyd i aelodau'r Cyngor Sir yn ystod y flwyddyn gyda'r Cynghorydd Rob James yn gadael y pwyllgor ym mis Chwefror 2024.

Aelodau Cyngor Sir y pwyllgor yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad hwn oedd.

Y Cynghorydd Betsan Jones
Y Cynghorydd Gareth Thomas
Y Cynghorydd Rob James (tan fis Chwefror 2024)

Ers hynny, mae'r Cynghorydd Philip Warlow wedi'i benodi i gymryd lle'r Cynghorydd James.

4. **Atgyfeiriadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

Ni dderbyniwyd unrhyw atgyfeiriadau newydd gan yr Ombwdsmon yn ystod y flwyddyn.

Fel y nodwyd yn Adroddiad Blynyddol 2022-2023, cyfarfu'r pwyllgor ym mis Ebrill 2023 i ddod â'r achos i ben mewn perthynas ag atgyfeiriad a dderbyniwyd gan yr Ombwdsmon yn 2022. Arweiniodd hyn at gyfnod o atal yr aelod o'i rôl fel Cynghorydd Tref.

5. **Hysbysiadau a dderbyniwyd gan Banel Dyfarnu Cymru**

Ni dderbyniwyd unrhyw hysbysiadau gan Banel Dyfarnu Cymru yn unol â Phennod 4 Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad hwn.

6. **Achosion wedi'u cau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

Yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad hwn ystyriodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gyfanswm o xx o gwynion ynghylch y côd ymddygiad yn erbyn cynghorwyr o Sir Gaerfyrddin a'u cau. Dangosir dadansoddiad o'r achosion hyn yn y tabl isod.

Y CYNGOR	**Penderfyniad i beidio ag ymchwilio**	**Dim Camau Gweithredu (yn dilyn ymchwiliad)**	**Wedi'i gyfeirio at y Pwyllgor Safonau**	**Cyfanswm Nifer y Cwynion sydd wedi'u Cau**
Cyngor Sir Caerfyrddin	12	1	0	13
Cyngor Tref Rhydaman	1	0	0	1
Cyngor Tref Llanelli	1	0	0	1
Cyngor Gwledig Llanelli	0	1	0	1
Cyngor Cymuned Llangennech	1	0	0	1
Cyngor Cymuned Llannon	1	0	0	1
Cyngor Cymuned Llansteffan a Llan-y-bri	2	0	0	2

Cyngor Tref Pen-bre a Phorth Tywyn	3	0	0	3
Cyfanswm	21	2	0	23

Fodd bynnag, efallai y bydd cwynion hefyd ar hyn o bryd gyda'r Ombwdsmon yn aros am benderfyniad.

Mae'r pwyllgor yn parhau i fod yn fodlon bod y rhan fwyaf o gynghorwyr yn cydymffurfio â'r côd a phan wneir honiadau o dorri rheolau, fel arfer maent yn ddi-sail neu nad ydynt yn cael eu hystyried gan yr Ombwdsmon yn ddigon difrifol i gyfiawnhau camau gorfodi.

7. CEISIADAU AM OLLYNGIAD

Ystyriodd y Pwyllgor 23 o geisiadau am ollyngiad gan Gynghorwyr Sir a Chynghorwyr Cymuned a Thref yn ystod y flwyddyn, ac roedd yr holl geisiadau wedi'u rhoi neu eu rhoi yn rhannol.

Mae'r seiliau y gall y Pwyllgor roi gollyngiad arnynt wedi'u nodi yn Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001.

Mae'r Pwyllgor yn parhau i ymdrin â phob cais gyda rhagdybiaeth o blaid rhoi gollyngiad lle bynnag y bo'n ymarferol, yn enwedig mewn perthynas â rhoi gollyngiad i siarad yn unig.

Gellir gweld manylion y ceisiadau yr ymdriniwyd â hwy fel rhan o gofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor sydd ar gael ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin www.sirgar.gov.uk.

8. HYFFORDDIANT CÔD YMDDYGIAD

Cynhaliwyd dwy sesiwn Hyfforddiant Côd Ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr Tref a Chymuned yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad hwn. Cynhaliwyd y rhain ar 12 Mehefin a 24 Gorffennaf 2023. Digwyddiad hybrid oedd sesiwn mis Mehefin a chynhaliwyd sesiwn Gorffennaf ar-lein yn unig. Daeth dros 80 o bobl i'r sesiynau hyn.

9. **Y POLISI DATGELU CAMARFER**

Mae'r Pwyllgor yn goruchwylio Polisi Datgelu Camarfer yr awdurdod. Mae'r broses yn cael ei rheoleiddio gan Ddeddf Datgelu er Budd y Cyhoedd 1998, sy'n amddiffyn rhag diswyddo a niwed arall i weithwyr sy'n datgelu gwybodaeth er budd y cyhoedd mewn amgylchiadau rhagnodedig i bersonau rhagnodedig.

Nodir nifer y cwynion a gofnodwyd ynghylch datgelu camarfer yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn isod.

Cwynion Newydd	Cwynion a drosglwyddwyd o 2022/23	Achosion a Gwblhawyd	Achosion sy'n Parhau
2	0	0	2

Mae nifer y cwynion yn parhau i fod yn gyson â'r rhai a dderbynnir gan awdurdodau lleol eraill.

Adolygodd y Pwyllgor hefyd y Polisi Datgelu Camarfer yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad hwn.

10. **CYDYMFFURFIAETH CYNGHORAU TREF A CHYMUNED Â'R CÔD YMDDYGIAD**

Cafodd y pwyllgor adroddiad eto ynghylch i ba raddau y mae Cynghorau Tref a Chymuned yn y Sir yn cydymffurfio â'r Côd Ymddygiad. Roedd yr adroddiad yn cynnwys data sy'n ymwneud â:

- Cwynion ynghylch y côd
- Ceisiadau am ollyngiad
- Datganiad ynghylch Buddiannau
- Hyfforddiant Côd
- Mabwysiadu Cynlluniau Hyfforddi y Cyngor

Ni ellid gweld patrymau na thueddiadau amlwg o'r data. Mae'n ymddangos bod lefelau cydymffurfiad cyffredinol â'r côd yn dda. Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor yn siomedig mai dim ond hanner y cynghorau oedd wedi mabwysiadu a chyhoeddi cynllun hyfforddi yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

11. **DYLETSWYDDAU ARWEINWYR Y GRWPIAU**

Fel y nodwyd yn rhagair yr adroddiad hwn, mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gosod dyletswyddau newydd ar arweinwyr grwpiau gwleidyddol ac yn ei gwneud yn ofynnol i bwyllgorau Safonau fonitro ac adrodd ar eu perfformiad o'r dyletswyddau hyn.

Dyma ddyletswyddau arweinwyr y grwpiau.

- Cymryd camau rhesymol i hybu a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau o'u grŵp
- Cydweithio â phwyllgor safonau'r cyngor wrth arfer swyddogaethau'r pwyllgor safonau

Mae gan y Cyngor dri arweinydd grŵp gwleidyddol sef

- Y Cynghorydd Darren Price (Plaid Cymru)
- Y Cynghorydd Deryk Cundy (Llafur)
- Y Cynghorydd Jane Tremlett (Grŵp Annibynnol)

<u>Crynodeb o'r camau a gymerwyd gan y Pwyllgor Safonau</u>

Atgoffwyd tri arweinydd grŵp gwleidyddol y Cyngor o'r dyletswyddau hyn yn ystod y flwyddyn a gofynnwyd iddynt ddarparu adroddiad yn nodi sut yr oeddent wedi cydymffurfio â'r dyletswyddau hynny erbyn 5ed Ebrill 2024. Hefyd, rhoddwyd adroddiad templed i bob Arweinydd Grŵp i'w ddefnyddio hefyd os oeddent yn dymuno ac yn cael cyfle i wneud sylwadau ar y meini prawf asesu yr oedd y Pwyllgor yn bwriadu eu defnyddio.

Cyfarfu'r Pwyllgor Safonau hefyd â 2 o'r Arweinwyr Grŵp (Y Cynghorwyr Price a Cundy) ar 22ain Ebrill 2024. Mae'r cyfarfod gyda'r Cynghorydd Tremlett wedi'i aildrefnu ar gyfer y 9fed Medi 2024

<u>Crynodeb o'r adroddiadau a dderbyniwyd gan Arweinwyr y Grŵp</u>

Y Cynghorydd Darren Price – Grŵp Plaid Cymru

Darparodd y Cynghorydd Price adroddiad a gadarnhaodd fod 7 cwyn wedi'u gwneud i'r Ombwdsmon yn erbyn aelodau Grŵp Plaid Cymru yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad, ac nad oedd yr un ohonynt wedi'u cadarnhau. Cadarnhaodd hefyd bod un aelod o'r grŵp wedi cael ei gyfeirio at y broses ddatrys leol ar gyfer cwynion lefel isel rhwng aelodau.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Price fod 31 allan o 38 o aelodau'r grŵp (82%) bellach wedi mynychu'r hyfforddiant côd ymddygiad ers etholiadau mis Mai 2022 ac allan o'r 7 aelod a oedd yn weddill bod 6 wedi mynychu'r hyfforddiant côd ymddygiad yn flaenorol.

Mae'r Cynghorydd Price ei hun wedi mynychu Hyfforddiant Côd Ymddygiad ers etholiadau Mai 2022.

Y Cynghorydd Deryk Cundy – Grŵp Llafur

Dim ond ym mis Chwefror 2024 y daeth y Cynghorydd Cundy yn arweinydd y Grŵp Llafur ac felly roedd ei adroddiad yn naturiol yn gyfyngedig o ran cwmpas. Cadarnhaodd y Cynghorydd Cundy fod pob aelod o'r Grŵp Llafur wedi derbyn hyfforddiant côd ymddygiad a'i fod wedi pwysleisio'n bersonol i aelodau'r grŵp bwysigrwydd cydymffurfio â'r côd ymddygiad. Cadarnhaodd y Cynghorydd Cundy nad oedd yn ymwybodol bod unrhyw gwynion wedi eu gwneud i'r Ombwdsmon ynglŷn ag Aelodau'r Grŵp Llafur ers iddo ddod yn arweinydd grŵp.

Mae'r Cynghorydd Cundy wedi mynychu'r hyfforddiant côd ymddygiad ers etholiadau mis Mai 2022.

Y Cynghorydd Jane Tremlett – Y Grŵp Annibynnol

Darparodd y Cynghorydd Tremlett adroddiad a gadarnhaodd nad oedd cwynion côd ymddygiad wedi'u gwneud yn erbyn aelodau'r Grŵp Annibynnol yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad.

Mae'r Cynghorydd Tremlett wedi mynychu'r hyfforddiant côd ymddygiad ers etholiadau Mai 2022.

<u>Asesiad o'r graddau y mae arweinwyr grwpiau gwleidyddol wedi cydymffurfio â'u dyletswyddau o dan y Ddeddf.</u>

Ar ôl ystyried yr adroddiadau a gyflwynwyd gan arweinwyr y Grŵp, a'r cyfarfod gyda'r Cynghorwyr Price a Cundy mae'r pwyllgor yn fodlon bod y tri arweinydd grŵp wedi bodloni eu dyletswyddau o dan Ddeddf 2021.

Crynodeb o unrhyw gamau a gymerwyd ar ôl ystyried adroddiadau'r Arweinwyr Grŵp

Mae'r Pwyllgor wedi penderfynu cymryd y camau canlynol

- Cyfarfod ag arweinwyr Grŵp yn flynyddol
- Trefnu hyfforddiant gloywi o ran y côd ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr Sir hanner ffordd drwy eu tymor etholiadol.
- Rhoi gwybodaeth i Arweinwyr Grwpiau ynghylch yr achosion côd ymddygiad diweddaraf a gyhoeddwyd gan yr Ombwdsmon a Phanel Dyfarnu Cymru, i'w dosbarthu i aelodau'u grŵp.

12. **GWEITHGAREDDAU ERAILL**

Yn ogystal â'r gweithgareddau uchod, mae'r Pwyllgor hefyd wedi:

- Derbyn ac ystyried penderfyniadau achos Panel Dyfarnu Cymru
- Derbyn ac ystyried penderfyniadau achos a wnaed gan Bwyllgorau Safonau eraill yng Nghymru

Lle bo'n briodol, mae'r Pwyllgor wedi nodi pwyntiau dysgu ac arfer gorau ac wedi eu hystyried wrth wneud penderfyniadau eu hunain a'u cynnwys yn yr hyfforddiant y cyfeirir ato ym mharagraff 5 uchod.

13. **CASGLIAD**

Cafodd y pwyllgor flwyddyn brysur iawn, ac rwy'n ddiolchgar i'm cyd-aelodau o'r pwyllgor am eu cyfraniadau gwerthfawr drwyddi draw.

Ar y cyfan, dangoswyd lefelau da o gydymffurfio â'r Côd Ymddygiad gan Gynghorwyr ar draws y Sir ac mae'r lefelau cwynion yn parhau i fod yn isel. Fodd bynnag, fel yr amlygodd y ddau achos disgyblu yn 2022-2023, ni all cynghorwyr fforddio bod yn hunanfodlon a dylent fod yn ymwybodol o'u dyletswyddau o dan y côd bob amser.